Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cynllun 5 Mlynedd y Gwasanaeth Ieuenctid (Blwyddyn 3)

| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| ***Sefydlu Nod ac Amcanion Newydd*** | | | |
| Argymhelliad 1 | Datblygu gwybodaeth a defnydd o'r iaith Gymraeg | **Rhoi camau ymarferol ar waith** | Canllawiau Iaith wedi eu cwblhau ar gyfer y Gwasanaeth sydd yn cyd fynd a Polisi defnydd o'r Gymraeg y Cyngor. Bydd y canllawiau yma yn cael eu trafod yng Nghymdeithas Arweinyddion y Gwasanaeth yn Medi 2012. Y canllawiau wedi eu cymeradwyo gan adran Hunaniaeth y Cyngor a Swyddog Polisi Cydraddoldeb a Iaith Cyngor Gwynedd. |
| | | | Er bod 96% o weithgareddau y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, mae y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag Hunaniaith i ddarparu sesiynnau Ymwybyddiaeth Iaith er mwyn cynorthwyo staff i gynllunio a darparu profiadau dysgu. Trwy ystyried yr iaith Gymraeg wrth gynllunio profiadau dysgu, gall darparwyr y Gwasanaeth Ieuenctid sicrhau fod pobl ifanc yn derbyn cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio, datblygu ac ehangu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. |
| | | **Monitro iaith Gweithwyr y Gwasanaeth Ieuenctid** | Cwblhau tabl monitro Sgiliau Ieithyddol Staff yn flynyddol. |
| ***Cydweithio ac Osgoi Dyblygu*** | | | |
| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu** |
| Argymhelliad 2 | Partneriaeth Plant a Pobl Ifanc | **Gweithredu ar feysydd gwaith y Bartneriaeth ac adrodd nol ar gyrhaeddiad** | Wedi ei gwblhau. |
| Argymhelliad 3 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth | **Negydu a chytuno Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Urdd a CFFI ar gyfer 2012-13** | Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2012-13 gyda'r Urdd a Ffermwyr Ifanc wedi eu cadarnhau. |
| | | **Monitro cyrhaeddiad yn erbyn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth** | Llwyddodd Ffederasiwn Meirionnydd ddenu grant gan y Gwasanaeth a trwy gydweithio gyda Llwyddo'n Lleol sicrhau fod 63 o'u aelodau yn derbyn achrediad BTEC lefel 1 mewn Cynllunio Gweithgaredd Menter a 12 o'u aelodau yn cwblhau tystysgrif Cymorth Cyntaf Medi Tec.<br><br>Trwy gydweithio gyda Prosiect Llwybrau i'r Brig yr Urdd llwyddodd 219 o bobl Ifanc i gael achrediad cenedlaethol ym maes awyr agored a'r celfyddydau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Aelwyd newydd wedi ei sefydlu yn Caernarfon.<br><br>Yn 11/12 roedd gan Ffermwyr Ifanc Eryri 308 o aelodau a Meirionnydd 213 o aelodau. Cyfanswm o 521 aelod ar draws y Sir. Llynedd ar draws y Sir roedd 438 aelod. **Cynnydd o 83 aelod.**<br><br>Yn 11/12 roedd gan yr Urdd 1546 aelod yn Eryri a 811 aelod yn Meirionnydd. Cyfanswm o 2357 aelod ar draws y Sir. LLynedd ar draws y Sir roedd 2142 aelod. **Cynnydd o 215 aelod.** |
| Argymhelliad 4 | Cydlynu elfennau unigol o waith ieuenctid | **Cydlynu trefniadau adrodd ar elfennau unigol o waith ieuenctid i'r Bartneriaeth Plant a phobl Ifanc** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctdi yn cydlynu trefniadau adrodd ar ddyraniadau CYMORTH i waith Ieuenctid i'r Bartneriaeth. |
| Cyd | | **Adnabod adrannau eraill nad ydynt yn cyfrannu ar hyn o bryd i elfennau gwaith ieuenctid i adnabod cyfleon – Hamdden a Darparu, Tai** | Cydweithio agos gyda Nyrsus Ysgol trwy y cynllun Cerdyn C a trwy rhannu gwybodaeth ac adnoddau addysgol |
| | | | Cydweithio agos gyda Partneriaeth Maesgeirchen ee cynllun i gael pobl ifanc NEET i gynorthwyo Ty Cegin i sicrhau cyfleoedd i'r henoed fynd i'r Ganolfan i gael bwyd am ddim. |
| | | | Cydweithio agos gyda'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel. Arian wedi ei dderbyn i gyflogi gweithiwr addysg Gyffuriau. Pecynnau addysgol wedi eu prynu trwy arian y Bartneriaeth yma. Pobl ifanc wedi gweithio ar gynllun i gynhyrchu gwybodaeth ar gyffuriau sydd bellach yn cael ei ddefnyddio ar draws Gogledd Cymru |
| | | | Cydweithio agos gyda Cydlynydd Strategaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Cyngor Gwynedd ar brosiect codi ymwybyddiaeth o beryglon ysmygu. Taflenni a DVD wedi eu cynhyrchu a'r prosiect wedi ei lansio yn Eisteddfod Eryri. |
| Argymhelliad 5 | Cydlynu Hyfforddiant maes gwaith Ieuenctid | **Cynnal cwrs aelodau hyn** | Yn 11/12 mae 16 wedi cwblhau y Cwrs Agored Cymru Lefel 1 Cwrs Aelodau Hyn a 11 wedi cwblhau Cwrs Agored Cymru Lefel 2 mewn Gwaith Ieuenctid.<br><br>Mae 1 wedi cwblhau ei lefel 3 yn gan ei fod yn cael ei gyflogi fel Is-Arweinydd Ieuenctid.<br><br>Mae 5 o'r rhai gwblhaodd eu lefel 2 yn cael eu cyflogi fel arweinyddion iau neu mewn bar coffi yn y clybiau mawr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Cytuno ar dargedu clybiau ac ardaloedd a meysydd gweithagredd yn seiliedig ar anghenion i gynllun Cyrraedd y Brig yr Urdd** | Swyddogion Llwybrau i'r Brig yn cynorthwyo i asesu, goruchwylio ac arwain teithiau Gwobr Dug Caeredin<br><br>Clwb Ieuenctid Nefyn wedi agor yn hwyrach eleni er mwyn gweithio tuag at Wobr John Muir<br><br>Pobl ifanc Porthmadog yn gweithio tuag at dystysgrif dringo NICAS lefel 1<br><br>Pobl ifanc Harlech wedi cwblhau tystysgrif dringo NICAS lefel 1<br><br>Aelodau clwb Ieuenctid Dolgellau a Blaenau Ffestiniog wedi gweithio gyda swyddog Llwybrau i'r Brig ar gynllun John Muir ac wedi cwblhau y wobr trwy wneud gwaith yn y gymuned<br><br>Pobl ifanc Pwllheli yn gweithio tuag at dystysgrif lefel 1 mewn canwio a tuag at eu tystysgrif dringo NICAS lefel 1,2,a 3 |
| | | **Cynnig achrediadau maes awyr agored a'r celfyddydau i glybiau.** | 191 o bobl ifanc wedi derbyn achrediad ym maes awyr agored a'r celfyddydau drwy Llwybrau i'r Brig eleni<br><br>59 wedi cwblhau eu gwobr Dug Caeredin<br><br>Yn 11/12 bu cydweithio pellach gyda'r Urdd, Cerdd Cymunedol, Menter a Busnes a'r Ffermwyr Ifanc gan sicrhau bod 315 o achrediadau wedi eu cwblhau gan bobl ifanc. |
| | | **Cytuno ar dargedu clybiau ac ardaloedd a meysydd gweithagredd yn seiliedig ar anghenion i gynllun Cyrraedd y Brig Cerdd Cymunedol** | Cerdd Cymunedol wedi gweithio gyda 12 person ifanc yn Tywyn a Corris i gwblhau a cynhyrchu CD. Yn sgil hyn wedi derbyn tystysgrif Agored Cymru lefel 1<br><br>Cynhaliwyd sesiwn blasu gan Cerdd Cymunedol yn yr Eisteddfod.<br><br>Cerdd Cymunedol hefyd wedi mynychu 10 clwb ieuenctid yn ystod y flwyddyn. |
| | | **Ymestyn achrediadau Agored Cymru Drwy'r Gweithwyr Ysgolion i Tywyn a Gader** | 4 yn gweithio tuag at achrediad Agored Cymru lefel 1 mewn 'Practical Gardening' yn Tywyn;<br><br>4 yn gweithio at achrediad Agored Cymru lefel 1 mewn ' Bicycle Maintenance and repair' yn Dolgellau;<br><br>20 yn gweithio tuag at gwblhau achrediad Agored Cymru Lefel 1 mewn 'Babysitting' yn Tywyn; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 6 wedi cwblhau eu gwobr Cyflawniad Ieuenctid efydd yn Abermaw a 6 wedi cwblhau y wobr yn Tywyn;<br><br>6 wedi cwblhau Gwobr John Muir yn Tywyn<br><br>10 wedi cwblhau 'Cyflwyniad i Gymorth Cyntaf' Agored Cymru lefel 1 yn ystod wythnos Gweithgareddau Ysgol Tywyn |
| | | | Trwy weithio tuag at y gwahanol achrediadau mae pobl ifanc wedi codi eu hunan hyder ac mae Dirprwy Brifathrawes wedi mynegi fod gwahaniaeth mewn agwedd gan rhai disgyblion |
| | | **Parhau gydag achrediadau Agored Cymru ym Mangor, Meirionnydd a Pwllheli** | Amrywiaeth eang iawn o achrediadau Agored Cymru wedi eu cwblhau yn Bangor. 82 person ifanc wedi derbyn 91 tystysgrif Agored Cymru mewn amrywiaeth o bynciau – Adeiladu tîm, Gwirfoddoli, Manual Handling, Garddio, Cerdded Mynyddoedd lefel isel ayyb<br><br>Gweithwraig Ysgolion Ysgol Glan y Mor wedi bod ar gyfnod mamolaeth. Mae Ysgol Glan y Mor wedi gofyn i ni weithio ar gymhwyster BTEC llawn sydd yn gwrs 2 flynedd ac yn gyfwerth a TGAU yn lle Agored Cymru eleni. |
| | | **Sefydlu Cynllun Gwobrwyon Cyflawniad Ieuenctid** | Y cynllun wedi ei dreialu. 24 wedi cwblhau eu gwobr efydd, 2 wedi cwblhau yr arian a 22 wedi cwblhau yr Her. |
| | | | Mae hwn yn achrediad cydnabyddiedig ac yn cael ei adnabod yn genedlaethol ac yn cael ei gymeradwyo gan gorff ASDAN. Mae'r wobr yn seiledig ar hunan ddatblygiad person ifanc ac yn cychwyn ar lefel efydd ble mae'r person ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yna yn symud ymlaen i weithio tuag at wobr platinum yn y pen draw ble disgwilir i'r person ifanc arwain ar addysg gyfoedion. Ar y llwybr yma mae pobl ifanc yn cael profiadau amrywiol a dysgu ystod eang o sgiliau. |
| | | **Cynnal trafodaeth a thrafod opsiynu darpau ar gyfer Cynllun Dug Caeredin traws-sirol.** | Trafodaethau cychwynnol anffurfiol wedi digwydd ar draws Gogledd Cymru. Bydd trafodaethau yn parhau. |
| | | | Yn 11/12 llwyddodd 59 sydd yn gynnydd o 11 ers llynedd.<br><br>Ers Ebrill 2012 mae 17 wedi cwblhau, ac ar hyn o bryd mae 214 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn gweithio tuag at gwblhau eu gwobr.<br><br>Bydd o leiaf 30 yn cwblhau rhwng rwan a Medi yn dilyn cwblhau alldaith. |
| | | **Dathlu Llwyddiannu Pobl Ifanc yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid** | Yn 09/10 cyflwynwyd 120 tystysgrif i 88 person ifanc yn y Noson Dathlu Llwyddiannau, ac yn 10/11 cyflwynwyd 196 tystysgrif i 100 o bobl Ifanc.<br><br>Caiff y Noson Ddathu nesaf ei chynnal yn Tachwedd 2012 |
| ***Ail-Strwythuro Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd*** | | | |
| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd  yn erbyn y Camau Gweithredu** |
| Argymhelliad 6 | Ail strwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid | **Cyflwyno a thrafod opsiynau gyda Aelodau Etholedig.** | Fel rhan o Brosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleon Pobl Ifanc – Bwrdd Rhaglen Plant a Pobl Ifanc gwnaed cais am arian i gomisiynu gwasanaeth ymgynghorydd busnes i fapio, adnabod anghenion a cynnig opsiynau dalgylchoedd gwasanaethu i'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br><br>Byddwn yn ymgynghori gydag Aelodau Etholedig ar yr opsiynau unwaith y byddwn wedi derbyn yr adroddiad terfynol. |
| | | **Cyflwyno a thrafod opsiynau gyda Pobl Ifanc** | Fel Uchod |
| | | **Trafod Opsiwn faffriedig gyda partneriaid.** | Fel Uchod |
| | | **Trafod Opsiynau gyda aelodau staff.** | Fel Uchod |
| Argymhelliad 7 | Y Gwasanaeth Ieuenctid yn yr Ysgolion | **Gwasanaeth Gweithiwr Ieuentid ar gael drwy'r sir** | Mae Gwasanaeth Gweithwyr Ieuenctid Ysgolion ar gael ar draws y Sir ers llynedd.<br><br>Yn 11/12 cefnogwyd 242 o aelodau a cwblhawyd 314 o achrediadau.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn ymdrin â phobl ifanc bregus, ac fel rhan o gynllun bugeiliol mae'r gweithiwyr yn gweithredu rhaglen un-i-un er mwyn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, emosiynol a chymdeithasol y pobl ifanc . Mae'r cynnydd  yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd gyda'r Pennaeth Ysgol neu'r Pennaeth Blwyddyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddir cefnogaeth dda trwy 'Gynllun Potensial' i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddadrithrio a pheidio bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant ar ôl gadael Ysgol. Trwy'r cynllun newydd yma mae'r gwasanaeth wedi cynyddu'r cefnogaeth mewn Ysgolion Uwchradd ar draws y Sir. Yn 2009/10 & 2010/2011 roedd Gweithiwr Ieuenctid ar gael mewn 5 Ysgol Uwchradd, yn 2011/2012 mae'r gwasanaeth ar gael mewn 9 Ysgol Uwchradd. Mae 32 o person ifanc wedi cofrestru gyda'r Gweithwyr Ieuencitd Potensial yn Mawrth 2012. |
| Argymhelliad 8 | Ardaloedd o Angen | **Paratoi a chyflwyno cais Cronfa Canlyniadau i'r Cynulliad** | Cyflwynwyd cais i'r Gronfa Ganlyniadau i ddatblygu Canolfan Ieuenctid Abermaw yn Ganolfan Llawn Amser. Yn anffodus ni fu'r cais yn llwyddiannus gan fod y Cynulliad wedi dirwyn y gronfa i ben. |
| | | **Rhedeg gweithagredd bwrpasol yn Pwllheli ar gyfer y grwp targed NEET** | Gan fod y Gweithiwr Ieuenctid Ysgolion wedi bod ar gyfnod mamolaeth ni fu modd i ni barhau hefo'r prosiect yma.<br><br>Mi fyddwn yn edrych ar ddatblygu ymhellach y gwaith yn yr ardal yma tymor nesaf. |
| | | **Codi nifeoredd sy'n manteisio ar gynllun NEET Maesgeirchen drwy ymestyn y rhaglen a sicrhau adnoddau.** | Yn11/12 gweithiodd y Gweithiwr Ieuenctid Ysgolion hefo 10 person ifanc NEET, 9 wedi cwblhau achrediad, 3 yn gweithio tuag at eu Gwobr Dug Caeredin. Mae pob person ifanc yn dysgu sgiliau bywyd newydd sydd yn eu galluogi i geisio am waith.<br><br>Trwy gydweithio hefo Cerdd Cymunedol mae un bachgen wedi cael dipyn o lwyddiant. Roedd yn freuddwyd ganddo gael canu mewn côr. Sicrhaodd Cerdd Cymunedol ei fod yn derbyn arian i gael gwersi canu. Cafodd gwrs o 6 mis ar ganu corawl. O hyn mae bellach yn aelod o Gor Ieuenctid Cymru ac wedi cael y profiad o ganu yn y Royal Albert Hall. |
| | | **Adolygu nosweithiau agor y clwb yn Talysarn** | Cymunedau'n Gyntaf wedi talu am ddefnydd o'r ganolfan ac am staff un noson i'r Gwasanaeth. Cydweithio agos wedi digwydd gyda Siop Siarad a'r Clwb. |
| | | **Adnabod dyblygu a chyfleon cydweithio ar gyfer ardal Peblig** | Y Bws Ieuenctid wedi ymweld a Peblig yn ystod gwyliau Ysgol. Wedi cael croeso gan bobl ifanc. Mae angen datblygu ein gwaith yma ymhellach trwy gydweithio hefo person sydd yn adnabod y Stad a'i phobl yn well. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Casglu data mynychwyr a monitro blynyddol** | Ar gael trwy gofrestr y clybiau a cofrestr y Bws Ieuenctid. |
| Argymhelliad 9 | Gweithgaredd yr haf ac awyr agored | **Targedu adnoddau ar gyfer darparu'r Rhaglen yr Haf** | Agorwyd 14 clwb am 7 wythnos ychwanegol eleni ar draws y Sir. Golygai hyn ddarpariaeth ym mhob dalgylch ysgol.<br><br>Bydd Clwb Ieuenctid Caernarfon ar agor tan diwedd Gorffennaf eleni.<br><br>Cafodd clwb Llanberis ganiatad i agor am 10 wythnos oherwydd eu cynlluniau awyr agored. Cafodd yr aelodau gyfle i gerdded y Wyddfa.<br><br>Bydd cynllun garddio ar y cyd gyda Ty'r Ysgol yn Caernarfon yn cynnig darpariaeth trwy mis Gorffennaf ac Awst.<br><br>Aelodau ar draws y Sir wedi cael cyfle i wirfoddoli yn Wakestock ac wedi cael profiadau na wnawn eu anghofio yno<br><br>Aelodau wedi cael cyfle i weithio gyda Gwynedd Digidol a Cwmni Cyfle yn yr Eisteddfod yn cynhyrchu DVD ynghyd a hyfforddiant ar gyfrifiaduron Apple. Cafodd yr aelodau yma gyfle i sgwrsio gyda y Prifweinidog Carwyn Jones.<br><br>Aelodau wedi cael cyfle i fynychu Gwyl Kaya yn y Faenol.<br><br>Aelodau Nefyn yn cael profiadau awyr agored trwy gydweithio hefo'r Urdd trwy weithio tuag at Wobr Dug Caeredin.<br><br>Y Bws Ieuenctid yn teithio o amgylch y Sir<br><br>Y Gwasanaeth Ieuenctid yn cydweithio gyda Siop Siarad yn Talysarn i gynnal darpariaeth yn ystod Gwyliau'r haf.<br><br>Grwp NEET Maesgeirchen yn parhau trwy'r haf |
| | | **Mapio sgiliau aelodau staff ar gyfer darparu gweithagreddau chwaraeon ac awyr agoed** | 8 aelod o staff y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant Cardiau Awyr Agored trwy gydweithio hefo'r Adran Hamdden.<br><br>Staff Awyr Agored a Chwaraeon yr Urdd wedi eu adnabod a cydweithio agos rhyngddom. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Wedi mapio unigolion ar draws y Sir sydd hefo Tystysgrif Mountain Leadership i'n cynorthwyo i gwblhau alldeithiau Gwobr Dug Caeredin |
| | | **Adnabod rhaglen hyfforddi arwienwyr yn y maes chwaraeon ac awyr agored** | Aelodau Tim Llawn Amser y Gwasanaeth Ieuenctid wedi derbyn hyfforddiant ar y Wobr Dug Caeredin<br><br>Aelodau o staff rhan amser y Gwasanaeth Ieuenctid wedi derbyn hyfforddiant Cardiau Awyr Agored |
| Argymhelliad 10 | Cynllun y Bws Gwybodaeth | **Creu cysylltiadau hefo mudiadau ac asiantaethau allanol** | Yn 11/12 ymwelodd y bws gyda 6 Cymuned o Angen; a gyda 11 o gymunedau gwledig lle nad oes darpariaeth ieuenctid ar gael.<br><br>Mae'r Bws Ieuenctid yn adnodd i gryfhau'r partneriaethau drwy weithio yn agos gydag asiantaethau sydd yn cynnig gwaith arbenigol i bobl ifanc a theuluoedd y Sir.<br><br>Mae mynediad i wybodaeth a chyngor yn rhan fawr o waith mae'r cynllun symudol yn ei wneud, a hefyd yn cynnig gwasanaeth 'sign posting'. Mae llawer o asiantaethau arbenigol eisoes wedi dangos diddordeb mewn cael defnydd o'r cerbyd fel eu bod yn cael cyrraedd at bobl ifanc mewn angen mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o angen.<br><br>Mae'r cynllun wedi cyd weithio gyda nifer o wahanol asiantaethau a phrosiectau gan gynnwys:<br><br>• SMAT - Youth Justice, Heddlu, Gisda, Trais Yn y Cartref, Nyrsys Ysgol Meirionydd, - Cydweithio gyda rhain i gyd i gynnal Trip Trap i ystod eang o oedran<br><br>• Nyrsys Ysgol - Mynd i roi cyflwyniad am y gwaith cyffuriau a gafodd ei gynhyrchu gan bobl ifanc i bobl ifanc - cyflwyniad i oddeutu 80 o ddisgyblion ysgol uwchradd Bethesda<br><br>• CIP - Cydweithio gyda CIP Pwllheli i geisio codi arian trwy'r bobl ifanc drwy ddiwrnod o sglefrio yn y ganolfan Hamdden - codwyd dros £1500 tuag at y parc sglefrio<br><br>• Cyngor Tref Pwllheli - Mynychu trafodaethau yn y Cyngor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | tref gyda pobl ifanc er mwyn iddynt gael mynegi barn am beth sydd yn mynd ymlaen hefo'r parc sglefrio<br><br>• Anne Llyn - Cydweithio gyda'r prosiect yma er mwyn creu ffilmiau byr gan bobl ifanc am eu pentref neu ardal eu hunain a beth mae yn ei olygu iddynt.<br><br>• Ffermwyr Ifanc - Mynychu Rali ffermwyr Ifanc yn Meirionydd er mwyn cael gwneud cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Ffermwyr Ifanc<br><br>• Urdd - Llwybrau i'r Brig - Rydym yn cydweithio gyda'r Urdd ar wahanol sesiynau a hefyd alldeithiau Gwobr Dug Caeredin<br><br>• Cymunedau'n Gyntaf<br><br>• Fforwm Ieuenctid – Llais Ni<br><br>• Gwaith ymchwil wedi ei gwblhau i sicrhau datblygiad y cynllun. Wedi ymweld a chynlluniau mewn ardaloedd eraill ac wedi mynychu cynhadledd gwaith ymestyn allan a hyn wedi creu partneriaethau a rhannu ymarfer da. Datblygiad o hyn yn arwain rhaglen gwaith y bws am y flwyddyn nesaf ee creu digwyddiadau cymunedol, gwaith ar stadau tai ayyb |
| | | **Casglu data defnyddwyr a monitro blynyddol** | Yn 11/12 mae'r Bws Ieuenctid wedi gweithio yn uniongyrchol gyda 1636 o bobl ifanc yn darparu gwasanaeth cyngor, cefnogol, gweithgareddau hamdden a sesiynau addysgol mewn dull anffurfiol ar draws y Sir.<br><br>Mae 9 o bobl ifanc wedi bod yn dilyn cyrsiau achrediadau yn bennaf Gwobr Dug Caeredin sydd hefyd wedi ei ymestyn i wirfoddoli yn y gymuned.<br><br>***Faint rydym wedi ei wneud?***<br>163 o ymweliad, 1664 o bobl ifanc wedi eu cyrraedd, 24 o gymunedau wedi eu cyrraedd. 15 person ifanc ar gyfartaledd wedi mynychu pob ymweliad. Rhaglen o 6 wythnos wedi ei ddarparu ym mhob cymuned a weithiwyd ynddo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ***Pa mor dda rydym wedi ei wneud?***<br>Cynnydd darpariaeth o 60% o llynedd.<br><br>Hyfforddi staff mewn pynciau penodol - e.e. llythrennedd ariannol- staff wedi ei hyfforddi mewn amryw o bynciau yn cynnwys llythrennedd ariannol / alcohol /cyffuriau /Gwobr Dug Caeredin<br><br>Datblygu rhaglen i ymestyn sgiliau pobl ifanc e.e. achrediadau- gwaith achrediadau wedi ei wneud gyda'r Wobr Cyflawniad Ieuenctid a Gwobr Dug Caeredin.<br><br>***Ym mha ffordd mae bywydau defnyddwyr yn well?***<br>12 Cymuned wledig yn derbyn gwasanaeth<br><br>Datblygu rhaglen mewn cymunedau o angen- rhaglen darpariaeth mewn 6 cymuned o angen wedi ei gyrraedd.<br><br>1000 o bobl ifanc gyda mynediad at fwy o wybodaeth / gweithgareddau. Datblygu rhaglen o sesiynau datblygu sgiliau sylfaenol- wedi ei gyrraedd<br><br>100% o bobl ifanc yn nodi gwerth yn y gwasanaeth a dderbyniwyd.<br><br>Ffurflenni cofnodi nosweithiol wedi ei greu a blwch i bobl ifanc nodi eu adborth am y gwasanaeth. |
| Argymhelliad 11 | Trafod newidiadau | **Cyfnod Ymgynghori ar Opsiynau y Rhwydwaith 5 ardal** | Bydd hyn yn digwydd rhwng Medi a Mawrth 2013 |
| ***Gwell Defnydd o Eiddo gan y Gwasanaeth Ieuenctid*** | | | |
| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu** |
| Argymhelliad 12 | Eiddo'r Gwasanaeth Ieuenctid | **Cynnal hyfforddiant asesiadau risg a rheolaeth safle i swyddogion.** | Holl staff y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant asesu risg ar wahanol lefelau. Rheolwyr Safle wedi derbyn hyfforddiant Rheolwyr Safle. |
| | | **Cynllunio rhaglen Asesiadau risg i safleoedd y Gwasanaeth** | 1 aelod o staff o bob clwb wedi mynychu hyfforddiant Asesu Risg yn y Seminar mis Hydref diwethaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Cwblhau asesiadau risg gan bob rheolwr safle** | Bydd angen i bob Rheolwr Sale gwblhau Asesiad Risg fydd ar gael yn y Canolfannau erbyn dechrau Medi. |
| Argymhelliad 13 | Gwaredu Eiddo | **Cyflwyno Cais CAT ar gyfer gwireddu trosglwyddo Clwb Maesgeirchen** | Cyflwynwyd cais ond bu'n aflwyddiannus. |
| | | **Cwblhau trosglwyddo a gwaredu Llanllechid / Dinorwig.** | Adroddiad wedi ei derbyn gan Bwyllgor Ardal Arfon ar y 14 Rhagfyr 2011 yn rhoi hawl i drafodaethau pellach gyda Menter Fachwen a Phwyllgor Canolfan Llanllechid gyda'r bwriad o waredu'r ddau adeilad ar les iddynt ar delerau ac amodau i'w cytuno gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol. |
| | | **Trosglwyddo neu waredu Coed Mawr / Penrhosgarnedd / Bro Tegid / Tregarth / Garth / Morfa Bychan / Pentrefelin a Sarnau.** | Mae'r adeiladau yma ar les tymor hir i'r gwahanol gyrff . Yn ogystal mae telerau "full repairing " yn y les sy'n golygu nad oes costau yn disgyn ar Gyngor Gwynedd. Yn dilyn trafodaethau hefo'r Rheolwr Eiddo Corfforathol cytunwyd nad oedd budd i'r gwasanaeth o drosglwyddo/waredu'r eiddo yma. |
| | | **Adolygu'r Cynllun Asedau** | Byddwn yn gwneud hyn cyn dechrau Medi 2012 |
| ***Monitro'r Gwasanaeth*** | | | |
| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu** |
| Argymhelliad 14 | Cyfundrefn Casglu Gwybodaeth | **Cynnal Bas-Data Archwiliad Cynulliad yn flynyddol** | Yr archwiliad nesaf angen ei gwblhau cyn diwedd Gorffennaf 2012<br><br>Yn 10/11 roedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn gallu profi fod ganddynt 6629 o aelodau unigol – 3558 merch a 3071 bachgen sydd yn 25.74% o'r boblogaeth 11 – 25 oed, a cysylltodd yr unigolion hyn â'r Gwasanaeth 85,698 gwaith. Gosododd hyn ni yn 5ed ar y tabl Cenedlaethol<br><br>Wrecsam oedd ar y brig gyda 32% a Bridgend hefo 19% ar waelod y rhestr.<br><br>Roedd hyn yn gynnydd o 4182 o unigolion a chynnydd o 38,092 o gysylltiadau gan unigolion mewn blwyddyn |
| | | **Adolygu Dangosyddion Perfformiad i weddu a allgynhyrchion y system QES** | Wedi Symud i Gasglu Mesuryddion Perfformiad yn 2012-13 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Hyfforddi arweinyddion i ddefnyddio'r system ar gyfer cofnodi sesiynau Clybiau unigol** | Mae un o brentisiaid newydd y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant ar y system ac yn ei ddeall yn dda iawn. Bydd hyn yn gymorth mawr i ni symud y gwaith yma yn ei flaen yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| Argymhelliad 15 | Dangosyddion Perfformiad | **Adolygu'r dangosyddion perfformiad i gynnwys plethiad gyda'r system QES** | Wedi Symud i Gasglu Mesuryddion Perfformiad yn 2012-13 |
| | | **Adrodd ar Berfformiad yn erbyn y dangosyddion yn flynyddol** | Defnyddir 'Ffynnon' sef y System Rheoli Perfformiad cenedlaethol ar gyfer monitro Cynlluniau Gweithredu a Dangosyddion Perfformiad y Gwasanaeth Ieuenctid yn chwarterol ac yn flynyddol. |
| Argymhelliad 16 | Ansawdd y gwasanaethau ieuenctid | **Casglu data a monitro ansawdd.** | Mae Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi mewn system casglu gwybodaeth - QES, er mwyn caniatau y Gwasanaeth i gofnodi cyrhaeddiad a chyflawniad pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth. Trwy fonitro cyrhaeddiad a chyflawniad pobl ifanc gall y Gwasanaeth Ieuenctid osod targedau cadarn i'w staff er mwyn sicrhau eu bod yn arfarnu a chofnodi cyrhaeddiad a chynnydd pobl ifanc yn rheolaidd. |
| Argymhelliad 17 | E-ffeiliau Cynnydd | **Sicrhau fod y system QES yn gallu casglu'r wybodaeth ar gyfer Ffeiliau Cyrhaeddiad Unigolion** | Maes o law bydd holl gynnydd pobl ifanc sydd yn gwneud defnydd o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gofnodi ar y system gasglu gwybodaeth QES. Ymgynghoriad wedi ei wneud hefo pobl ifanc ynglŷn a cofnodi eu cyrhaeddiad ar y system newydd |
| ***Ail-frandio a chynnwys pobl ifanc*** | | | |
| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu** |
| Argymhelliad 18 | Creu Newid | **Cyfnod ymgynghori gyda pobl ifanc ar opsiynau darparu clybiau Ieuenctid** | Bydd hyn yn digwydd rhwng Medi 2012 a Mawrth 2013 |
| | | **Adnabod opsiynau ar gyfer cynnal fforymau lleol** | Rydym yn bwydo i mewn i Llais Ni sydd yn cyfarfod mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Sir |
| | | | Gwaith ar benwythnosau preswyl o ran gweledigaeth dyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid yn Gwynedd |
| Argymhelliad 19 | Delwedd Newydd | **Tynnu ynghyd holl ddeunyddiau a delwedd y gwasanethu ieuenctid ynghyd i sefydlu'r 'Brand', cysoni, adnabod gwagle ac adnabod cyfryngau gwahanol (twitter / facebook).** | Logo newydd wedi ei gymeradwyo ac yn cael ei ddefnyddio trwy y Gwasanaeth bellach<br><br>Gwefan newydd wedi www.gwynedd.gov.uk/ieuenctid wedi ei sefydlu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Trafodaethau ar y gweill i ymuno gyda CLIC Online<br>Gweithio i gael gwybodaeth ar y wefan newydd, ynghyd a Facebook a Twitter<br><br>Cylchgrawn ar fin cael ei gwblhau<br><br>Catalog adnoddau ar fin cael ei gwblhau<br><br>Taflenni gwybodaeth a marchnata y Gwasanaeth ar fin cael eu cwblhau |
| ***Gweithredu'r Newidiadau*** | | | |
| | | **Camau Gweithredu Blwyddyn 3** | **Cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu** |
| Argymhelliad 20 | Cynllun Gweithredu | **Llunio Rhaglen Waith flynyddol i'r Cynllun Gweithredu** | Cwblheir hyn yn rhan o'r broses hunan-asesiad a gynhelir ym mis Medi bob blwyddyn. |
| | | **Monitro cynnydd ac adolygu'r Cynllun Gweithredu'n flynyddol** | Rhaglen waith Blwyddyn 3 wedi ei gwblhau |
| Argymhelliad 21 | Adroddiadau Cynnydd | **Cyflwyno Adroddiad Cynnydd Blynyddol i Pwyllgor Craffu Plant a Pobl Ifanc (Medi 2012)** | Yn sgil newid trefniadau bydd y Gwasanaeth yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 31 Gorffennaf 2012. |